Ydych chi'n cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

bwletin gweinyddiaeth etholiadol

Rhifyn 359 (Cymru) – 17 Ionawr 2024

Diweddariad ar ffurflenni etholwyr tramor

Ymhellach i Fwletin 357, mae'r ffurflenni cofrestru pleidleiswyr tramor bellach wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i'r Ddeddf Etholiadau a ddaeth i rym ar 16 Ionawr.

Mae'r gyfres newydd o ffurflenni yn cynnwys ffurflen cofrestru pleidleiswyr tramor, ffurflen ar wahân ar gyfer y rhai a allai fod wedi gwneud datganiad o gysylltiad lleol ar y dyddiad y gwnaethant adael y DU, a ffurflen adnewyddu ar gyfer pleidleiswyr tramor.

Mae'r ffurflenni bellach wedi'u cyhoeddi a gellir eu lawrlwytho yn Ffurflenni a llythyrau cofrestru | Comisiwn Etholiadol.

Etholiadau mis Mai 2024: Diweddariad ar ganllawiau:

Rydym am achub ar y cyfle i'ch atgoffa o ddiweddariadau diweddar i'n canllawiau a'n hadnoddau. Gwnawn hyn er mwyn cynorthwyo eich paratoadau ar gyfer yr etholiadau CHTh ym mis Mai, ac i amlygu pryd y gallwch ddisgwyl gweld y diweddariadau sy'n weddill sydd eu hangen i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau. 2022.

Canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol
Ym mis Medi 2023, gwnaethom gyhoeddi diweddariadau i'r canllawiau craidd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gefnogi'r prosesau gwneud cais am bleidlais absennol sydd wedi'u diweddaru a ddaeth i rym ar 31 Hydref y llynedd.

Canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau
Fel y nodir ym Mwletin 352, cyhoeddwyd y canllawiau craidd a'r adnoddau cynllunio ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Lleol, megis yr amserlen etholiad ar gyfer yr etholiadau CHTh ar 2 Mai 2024, y cynllun prosiect a'r gofrestr risg, ym mis Tachwedd 2023.

Mae'r adnoddau ategol sy'n weddill yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau a fydd mewn grym ar gyfer etholiadau mis Mai 2024, gan gynnwys y darpariaethau ar gyfer trin pleidleisiau post a chyfrinachedd. Mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar sail dreigl, gyda'r diweddariadau terfynol ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Diweddariad ar ffurflenni etholwyr tramor

Gwybodaeth am ffurflenni wedi'u diweddaru a dolen iddynt.

Etholiadau mis Mai 2024: Diweddariad ar ganllawiau:

Negeseuon atgoffa ynghylch diweddariadau diweddar i ganllawiau ac adnoddau i gynorthwyo paratoadau ar gyfer etholiadau mis Mai.

Etholiadau mis Mai 2024: arolwg gwybodaeth rheoli – neges atgoffa

Neges atgoffa ynghylch cwblhau'r arolwg.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n sianeli allweddol ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o Fwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r

dechrau mis Chwefror. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi fersiwn gwe yn unig o'r llawlyfr i orsafoedd pleidleisio a'r templedi sleidiau briffio wedi'u diweddaru ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio. Sylwch nad hwn fydd y fersiwn terfynol sy'n barod i'w hargraffu o'r llawlyfr i orsafoedd pleidleisio, ond yn hytrach fersiwn testun terfynol sy'n adlewyrchu'r broses o gyflwyno pleidleisiau post. Rydym yn ei gyhoeddi ymlaen llaw i gefnogi gweinyddwyr wrth iddynt gynllunio eu hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd copïau caled o'r llawlyfr i orsafoedd pleidleisio yn cael eu dosbarthu ym mis Mawrth.

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid
Rydym wedi cyhoeddi ein canllawiau ac adnoddau i ymgeiswyr ac asiantiaid, sydd wedi'u diweddaru, yn y fformat HTML newydd ar y we, gan gynnwys cyhoeddi ffurflenni enwebu wedi'u diweddaru ar gyfer yr etholiadau CHTh ym mis Mai 2024. Rydym wrthi'n diweddaru'r canllawiau hyn ymhellach i adlewyrchu'r rheolau newydd o ran trin pleidleisiau post a bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn dechrau mis Chwefror.

Etholiadau mis Mai 2024: arolwg gwybodaeth rheoli – neges atgoffa

Fel y nodwyd ym Mwletin 358 wythnos diwethaf, fel rhan o'n dull monitro etholiadau mis Mai 2024, rydym yn casglu gwybodaeth rheoli gan bob Swyddog Canlyniadau sydd ag etholiadau wedi eu trefni. Bydd yn ymwneud â'r modd y caiff yr etholiadau eu cynnal yn eu hardal.

Deallwn eich bod yn brysur, a gwerthfawrogwn eich amser yn fawr iawn wrth roi'r wybodaeth bwysig hon i ni.

Diolch i bawb sydd wedi cwblhau a chyflwyno eu hymateb yn barod. Os nad ydych wedi gwneud felly yn barod, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cwblhau'r arolwg erbyn dydd Gwener 19 Ionawr 2024 fan pellaf. Cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2024

cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.